# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 12/06/2018 Ysgol Nefyn am 7yh

**<u>Presennol</u>**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (CAD) | Gruffydd Williams | Gwynfor Jones | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Sian Hughes | Arfon Hughes | Andrew Owen | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Catrin Roberts, Janice Evans, Guto Williams a Glenda Rice. Hefyd wedi derbyn ymddiheuriadau gan Sian Hughes gan ei bod yn ymwybodol y bydd yn hwyr yn cyrraedd y cyfarfod.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion 08/05/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir gyda diddymu brawddeg ar pwynt 12.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Rhian Hughes-Jones - Galwad ynglyn a damwain yn cae chware. Ymwelwr wedi anafu yn cae chwarae Nefyn.
   Sian Hughes - Cwynion ynglyn a cof golofn Edern – Sian Hughes wedi

5. **Etholiadau**
   Rhys Tudur yn nodi bod Bethan Williams wedi penderfynu sefyll i lawr o'r Cyngor Tref. Hoffwn ddiolch i Bethan am eu gwaith called dros y flwyddyn ddiwethaf hefo'r Cyngor Tref ac y bydd yn golled.
   Mae hyn yn gadael dwy sedd wag yn Nefyn.
   Rydym wedi derbyn cais gan Carys Roberts o Cefn y Twr Nefyn, mae'r pwyllgor yn cytuno yn unfrydol y byddai Carys yn ased i'r Cyngor Tref. Bydd y Clerc yn ei hysbysu drwy lythyr a'i gwahodd i bwyllgor mis Gorffennaf.
   Gan fod yna un sedd wag yn parhau yn Nefyn penderfynwyd ehangu'r cyfnod ymgeisio hyd at 09/07/2018. Bydd Copi yn mynd i ffenest Siop Siarad, Siop Ashley a Spar.

6. **Awdit**
   Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn sylwadau gan Gyngor Gwynedd sydd yn nodi nad yw'r cyfrifon yn ddigonol fel ac y mae. Rhian Hughes-Jones wedi gwneud y cyfrifon yn y dull maent ei angen a'i dychwelyd.
   Mae'r Archwiliwr mewnol bellach yn hapus hefo'r wybodaeth ac yn gobeithio dychwelyd y gwaith a'r adroddiad cyn diwedd yr wythnos (13/06/2018).
   Bydd wedyn angen eu gyrru i'r BDO yr archwiliwr allanol wedi eu ardystio gan y pwyllgor. Bydd angen galw pwyllgor brys I gadw at amserlen dyn.

7. **Traethau**
   Mae Rhys Tudur wedi derbyn manylion perchnogaeth gan y gofrestrfa tir er gallu gyrru llythyr i'r perchnogion yn amlinellu eu cyfrifoldebau. Gweler Atodiad 1. Bydd Rhian Hughes-Jones yn gyrru'r llythyrau allan.
   Arfon Hughes- Nifer o geir wedi parcio ar y traeth yn Nefyn a Lon Gam. Mae Rhian Hughes-Jones wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd yn amlinellu'r broblem a nodi'r pryderon diogelwch.
   Efallai buasai rhoi rhwystr yn syniad da i'r dyfodol. Bydd angen trefnu cyfarfod yr is-bwyllgor traethau.
   Mae'r sefyllfa yn Forfa Nefyn wedi bod yn annerbyniol. Mae nifer o dir lithriadau wedi achosi difrod dros yr wythnosau.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

Mae'r ysbwriel ar y traethau yn bryderus gyda Tŷ Coch y neu glirio yn ogystal â glanhau'r toiledau. Buaswn yn hoffi diolch i Tŷ Coch a'r staff am eu gwaith da er nad yw'n gyfrifoldeb iddynt. Gobeithio bydd mwy o gefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'r dyfodol.

Mae problemau gyda 'Jest Skis' wedi dechrau yn barod eleni gyda nifer o rhai yn dod drosodd o ochrau Dinas Dinlle yn mynd yn agos i blant bach a heb ddim siaced bywyd na rhif cofrestru. Mae'r rhai gyda rhif cofrestru i weld yn ymddwyn llawr gwell.

Mae pobl yn parcio yn bob man gyda lorïau a charafán methu troi. Llwyth o gwynion wedi eu derbyn gan y cyhoedd yn Morfa hefyd. Dim ond yn waeth eith y sefyllfa dros yr haf.

Mae'r risg ar y traethau yn uchel ac yn annerbyniol, bydd rhaid mynd ar ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ogystal â Chyngor Gwynedd. Mae angen warden ac edrych ar y sefyllfa lansio, efalla'i defnyddio un tractor. Ni ellir y gwasanaethau brys fynd at argyfwng buasai'n codi.

Nid yw pobl leol yn cael pleser wrth ddefnyddio'r traethau. Mae angen rhoi llais i'r cyhoedd – cyfle iddynt fynegi barn ar y sefyllfa a sut i fynd ymlaen i'r dyfodol.

Bydd Sian Hughes a Gruff Williams yn trefnu dyddiad i cyfarfod cyhoeddus cyn gynted a phosib.

**8. Llwybrau**

Diweddariad - Gruffydd Williams; Twll ar lwybr Penrallt wedi ei lenwi. Llwybr yr arfordir yn tyfu drosto, Gruff Williams am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd. Llwybr y Morwyr ar ei ffordd i fod yn agored.

Torri blodau gwyllt ar lwybrau – bydd rhaid cysylltu hefo Cyngor Gwynedd, y nhw sydd yn gyfrifol am y llwybr.

Sian Hughes – Mae Llwybr ysgol Morfa yn cael ei wneud cyn diwedd Mis Mehefin gyda mynediad i gadair olwyn yn ogystal â phram.

Mae Llwybr Lon Uchaf hefo weiren drydanol sydd angen ei ail leoli. Mae'r cyhoedd yn canmol gwaith torri llwybrau.

Meinciau – Rhys Tudur / Rhian Hughes-Jones / Arfon Hughes – Nid oedd Mr S Hughes yn hapus hefo'r man roedd y Cyngor Tref wedi ei nodi yw fainc. Aeth Arfon Hughes yw cyfarfod i edrych am fan mwy derbyniol i Mr S Hughes. Maent wedi gallu gosod y fainc mewn gosodiad delfrydol ac mae Mr S Hughes wedi bod mewn cysylltiad hefo'r tir feddiannwr i wneud yn siŵr nad oes unrhyw wrthwynebiad.

Rydym wedi derbyn cais gan Mrs Glesni Owen i osod main car y traeth. Mae Arfon Hughes mewn cysylltiad hefo Mrs Owen ac yn awgrymu iddi ail osod mainc sydd wedi dirywio.

**9. Y Ddol**

Dim Diweddariad i gysoni gwybodaeth – anodd mynd ymlaen hefo'r gwaith gan fod sefyllfa draenio'r Ddol yn dal i fynd yn ei flaen.

Mae'r datblygwr wedi hysbysebu Cyngor Tref Nefyn eu bod wedi gorffen y gwaith gofynnir iddynt ei gwblhau gan Adran Cynllunio.

Nodwyd bod amod cynllunio i wneud y gwaith draenio wedi eu cadarnhau yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae cyflwr y tir mor wael nad yw'n bosib ei weithio fel ac y mae a dim ond dau randir sydd yn cael ei ddefnyddio.

Ni does gopi o'r dyfarniad ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd Rhian Hughes-Jones yn dilyn hyn i fynnu hefo'r Adran Gynllunio.

**10. Siop Siarad**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Mae'r les wedi ei ddrafftio gan Robyns Owen. Cadeirydd yn awgrymu rhoi seibiant yn y cytundeb er ail edrych arno cyn gosod y PREASEPT yn fis Ionawr. Mae'r pwyllgor wedi cytuno i'r newid yma. Hefyd cytunwyd i ail eirio'r cytundeb fel nad oes ei dorri cyn y Nadolig.

Mae'r cytundeb yn £60 yr wythnos (£3120 y flwyddyn) bydd eisiau gwneud y newidiadau ac arwyddo'r les. Bydd Rhys Tudur yn adrodd yn ôl i bwyllgor mis Gorffennaf.
Mae criw o 12 I 19 o bobl ifanc wedi bod wrthi yn tacluso yn Siop Siarad. Maent yn awyddus i baentio waliau tu mewn ac ystyried dylunio murlun i un o'r waliau.
Cytunwyd bod y gwaith yma yn syniad da ac mae Andrew Owen wedi cael 3 pris am y paent sydd yn £90 + TAW. Mae'n bwysig rhoi perchnogaeth ar y gofod i'r ieuenctid. Mae'r toriadau clwb ieuenctid wedi taro yn galed yn Nefyn. Falch gweld yr ieuenctid yn frwdfrydig.
Mae BT yn derbyn £21.12 am y llinell ffon ond bydd rhaid trefnu wi-fi. Mae Gruff Williams am edrych i mewn i hyn.
Mae'n hanfodol gwneud defnydd o'r gofod. Oes arian wrthgefn i dalu rhywun os na ellir cael gwirfoddolwyr?
Cynigwyd Is-bwyllgor Siop Siarad gydag aelodau;
Arfon Hughes, Gruff Williams, Rhys Tudur, Sharon Williams, Andrew Owen, Sian Hughes a Gwynfor Jones (Rhian Hughes-Jones – Clerc)
Is-bwyllgor Siop Siarad 6:00y.h. 14/06/2018 yn Siop Siarad.
Mae'r cyngor wedi derbyn e-bost gan gwmni Bran Wen yn cynnig cyfle i roi cais i mewn i weithio gyda chwmni fran wen i drefnu gweithgareddau. Gellir clymu hyn i mewn hefo defnydd Siop Siarad. Cytunwyd bod hyn yn syniad da ac i wneud y cais.

**11. Cadw Cymru yn Daclus**
Diweddariad gan Andrew Owen – Mae nifer o ysbwriel ar hyd y ffordd gyda biniau ar dop lôn gam yn achosi pryder ond cytunwyd bod digon o fudiadau yn Nefyn yn gwneud gwaith da ac nid oes angen talu am wasanaeth.

**12. Llyfrgell**
Diweddariad gan Sharon Williams – Wedi derbyn anfonebau gan Bridge Security Systems am waith cynnal a chadw.
Mae tu allan i'r llyfrgell yn ymddangos yn flêr iawn ac efalla'i buasai'n syniad gwneud y gwaith adnewyddu wan yn hytrach na disgwyl at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae Sharon am gael 3 pris ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.
Sharon wedi archebu bin i'r llyfrgell ac wedi cadarnhau caiff y glanhawr llau'r ffenestri. Mae'r gwair wedi ei dorri.

**13. Mynwentydd**
Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones – Wedi derbyn cwyn fod y giât wedi torri yn fynwent Morfa Nefyn. Bydd Rhian Hughes-Jones yn cael tri phris i wneud y gwaith adnewyddu.
Mae'r biniau yn llawn bob amser yn Nefyn a Morfa, wedi cadarnhau bod y bin sydd wedi ei archebu yn dderbyniol. Rhoddir hawl i'r Clerc pwrcasu 3 bin newydd dau i Forfa ac un arall i Nefyn.
Mae newidiadau wedi eu gwneud i'r prisiau claddu, rhoddir hawl i'r Clerc gwneud ymchwiliad i'r prisiau er eu cadarnhau.
Sian Hughes - Torri gwair yn y fynwent Morfa Nefyn; Mae wedi ei nodi bod y twmpathau o wair yn cael eu gadael ar y beddi. Bydd angen trafod hefo'r contractwr i atal hyn i'r dyfodol.

**14. GDPR a Clirio Dogfennau Hanesyddol**
Diweddariad - Rhian Hughes-Jones – gan nad oedd y Swyddog Diogelu data yn bresennol penderfynwyd gohirio. Bydd Rhian Hughes-Jones yn trefnu dyddiad i glirio Siop Siarad. Sian Hughes wedi cynnig dod wythnos nesaf ac Arfon Hughes a Bleddyn Evans yn mynd i ddinistrio'r ysbwriel dydd Sadwrn.

**15. Lwfans Cynghorydd 2018 – 2019**

Diweddariad – Rhys Tudur / Rhian Hughes-Jones. Bydd rhaid arwyddo datganiad yn nodi os ydych am neu pheidio hawlio lwfans. Nodwyd bod y lwfans yn cael ei ariannu gan y Cyngor Tref. Nid oedd y cyngor yn ymwybodol o hyn cyn gosod y PREASEPT yn mis ionawr.
Mae'r sawl oedd yn y cyfarfod wedi arwyddo'r furflenni i'r Clerc eu ardystio.

**16. Clybiau Ieuenctid Gwynedd**

Diweddariad Gruff Williams a Sian Hughes – Mae Craig ApIago wedi neilltuo £500,000 at fis Ebrill I wasanaethu clybiau ieuenctid. Pan fydd mwy o wybodaeth ar gael bydd Sian Hughes Adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

**17. Gwynedd Ddigidol**

Gwybodaeth gan Bleddyn Evans a Rhian Hughes-Jones a oedd wedi mynychu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd yn ddiweddar ym Mhorthmadog I weld cyflwyniad i'r fenter.
Mynediad cyhoeddus i Wi-fi mewn cymunedau gwledig yn defnyddio system grid i ddarparu wi-fi i ymwelwyr yn ogystal â thrigolion.
Mae'r cyngor wedi derbyn llythyrau cefnogol gan O Ddrws i Ddrws, Cwrw Llyn, Pwyllgor Tafarn yr Heliwr ac Amgueddfa Forwrol. Bydd cost i'r busnesau sydd yn cymryd rhan ond buasai'n gallu bod yn llai costus na band eang ac yn llawer cyflymach.
Cynigwyd bod Cyngor Tref Nefyn yn gwneud cais a bydd y Clerc y neu yrru ymlaen.

**18. Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol; Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid a Chymysgedd Tai. Mae'r dogfennau yn swmpus iawn ac mae'r pwyllgor yn teimlo ei fod yn bwysig i'r cyngor ddeall beth yw prif nodweddion y canllawiau. Gofynnir i Rhian Hughes-Jones gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am fraslun o'r canllawiau.

**19. Gwefan y Cyngor**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Nid yw'r Clerc byth wedi derbyn hawl i fewngofnodi i'r wefan gefnogol er ychwanegu dogfennau na i newid cynnwys.
Mae hyn wedi bod yn bryder ac yn risg i'r cyngor ers peth amser a bydd rhaid symud ymlaen rhyw sut hefo'r wefan. Mae'r BDO eisoes wedi amlygu pryderon yn 2016-17.
Mae Arfon Hughes a Gruff Williams yn mynd i ddilyn fynnu hefo darparwr y wefan eto fel cynnig olaf.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/0353/42/LL**
Adeiladu estyniad i'r ty annedd presennol a newid defnydd a defnyddio llawr daear fel caffi ar llawr cyntaf fel ty annedd ynghyd a creu lle parcio
Wern Caravan Park, Pistyll
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0332/42/AM**
Dymchwel stablau a codi gwyneb concrid presennol ac adeiladu 2 uned gwyliau, gwaith tirlunio a darparu uned trin carthfosiaeth.
Northern Lights, Lon-tyn-pwll, Nefyn
**Gwrthwynebu ar sail; Gor ddatblygiad, dymchwel adeiladau presennol a mynediad i'r safle.**

**C18/0344/42/CR**
Addasiadau allanol a mewnol i dy annedd
Pen y Bryn, Lon Rhos, EDERN
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/0441/42/LL**
Estyniad Deulawr a porth blaen.
Fron Deg, Mynydd Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

<u>**Gohebiaeth**</u>

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Mai 2018
2. **SLCC** - Bwletin Mai 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Mai 2018
4. **Local Council Update** – Mai 2018
5. **Un Llais Cymru** - Cynhadledd Arfer Arloesol ,4 Gorffennaf 2018 - Hafod a Hendre, Maes y Sioe Amaethyddol
6. **Un Llais Cymru** - Arweiniad Gwasanaethau Un LlaisCymru
7. **Gwynedd Digidol** - Digwyddiad Gwynedd Ddigidol
8. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant Modiwl 2 - Y Cynghorydd - Llangefni - Dydd Mercher 23ain Mai 2018 6.30-9.00
9. **Swyddfa Archwilio Cymru -** mae'n rhaid i gamau gweithredu gyfateb â brwdfrydedd os yw uchelgais llesiant cenedlaethau'r dyfodol i gael ei wireddu yng nghymru.
10. **Llywodraeth Cymru -** Natural Resources Bulletin - Issue 28 - May 2018
11. **Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru -** tawel fan – adroddiad hascas datganiad gan
12. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru -** Adroddiad Llesiant yng Nghymru
13. **Swyddfa Archwilio Cymru -** Rhaglen Blaenorol Gyfnewidfa Arfer Da 2018/19
14. **Cylchlythyr CAIS – Gwanwyn 2018SLCC -** Aelodaeth i Gymdeithas Clercod y Cyngor Lleol angen ei adnewyddu
15. **Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru -** Adroddiadau
16. **HM Revenue & Customs –** Newidiadau i sut i wneud hawliad TAW
17. **Un llais Cymru – Aelodaeth –** Bydd rhaid enwebu aelod.
18. **Nemisis Pyrotechnics Ltd –** Gwasanaethau ar gael.
19. **Nalc –** Gwybodaeth am cyflogau.
20. **Un Llais Cymru** - HYFFODDIANT MIS MEHEFIN -GOGGLEDD CYMRU
21. **Cyngor Gwynedd -** gorchymyn cyngor gwynedd gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd gorchymyn amrywio (ardal dwyfor) 2018.
22. **Betsi Cadwaladr -** Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – 14eg Mai 2018
23. **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru -** Angen gwneud mwy i fynd i'r afael â breuder gofal MT y tu allan i oriau yng Nghymru
24. **Heneiddio'n Dda yng Nghymru -** Adroddiadau Cynnydd / Effaith a Chyrhaeddiad.
25. **Priffyrdd Cyngor Gwynedd** – Gorchymun Cau Ffyrdd

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**Taliadau yw gwneud**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Mai | **£797.58** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs<br>Mai £33.88<br>Mehefin £33.88 | **£67.76** |
| **Clif Hughes** –<br>Taliad 1 2 a 3 contract 2018-19 | **£2,475.00** |
| **Bridge Security Systems** –<br>Cytundeb cynnal a chadw 01/05/2018 Llyfrgell Nefyn £109.20<br>Adnewyddu batri £35.77 | **£144.97** |
| **Cyngor Gwynedd** – Cyfraniad Toiledau 2018-19 | **£12,000.00** |
| **Yswyriant CTN** – Zurich | **£1,695.70** |
| **Sharon Williams** – Torri goriadau y Llyfrgell | **£7.00** |
| **Cyfraniad Ysgolion –** Fel diolch am defnyddio'r ysgolion ar gyfer cyfarfod | |
| Ysgol Nefyn | **£150.00** |
| Ysgol Morfa Nefyn | **£150.00** |
| **D M Parry –** Mynwentydd | **£436.00** |
| **Dwr Cymru –** Mynwent Nefyn | **£48.93** |
| **Cyfraniad Ysgol Feithrin Nefyn** - Cyfraniad | **£200.00** |
| **Gareth Williams –** Gwaith yn mynwent Nefyn | **£1607.47** |
| **Ashley Hughes –** Nwydda swyddfa | **£65.17** |

<u>**Taliadau wedi eu derbyn**</u>

| | |
|---|---|
| **Ifan Hughes** – Angladdau | **£930.00** |
| **Paragon** - Angladd | **£630.00** |

<u>**Ceisiadau am gyfraniad**</u>

**Dim**

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf:** Ganolfan Nefyn


Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**Atodiad 1**

Perchenog Tir / *Landowner*,

10/06/2018

Annwyl Sir / *Madam*,

Yr wyf yn ysgrifennu ar ran Cyngor Tref Nefyn parthed safle cytiau ar draeth Nefyn.

Fe'i dygwyd at sylw'r Cyngor Tref fod rhai o'r safleoedd cytiau traeth yn flêr ac yn beryglus. Fel tirfeddiannwr chi yn unig sydd yn gyfrifol am y tir bob amser.

Os ydych chi'n berchen ar unrhyw dir, gallwch wynebu hawliadau am iawndal os yw aelod o'r cyhoedd yn dioddef anaf tra bo arno, hyd yn oed os nad oes gan y cyhoedd hawl mynediad i'r cyhoedd. yn gyfreithlon, mae'r cyfrifoldeb arnoch chi i amddiffyn y cyhoedd rhag anaf.

Mae hynny'n golygu, hyd yn oed os oes ddamwain wrth dresmasu, y gallant wneud hawliad yn eich erbyn, ac os na allwch brofi nad oeddech yn esgeulus, byddwch chi'n atebol.

I'r perwyl hyn byddwn yn eich anog i gadw'r safleoedd yn daclus bob amser.

*******************************

*I am writing on behalf of Nefyn Town Council regarding the beach hut sites on Nefyn beach.*

*It has been brought to the Councils attention that some of the beach hut sites are untidy and hazardous. As a landowner you are solely responsible for the land at all times.*

*If you own any land, you can face claims for compensation if a member of the public suffers an injury whilst on it, even if the land doesn't have public access. legally the onus is on you to protect the public from injury.*

*That means that even if someone has an accident whilst trespassing, they can make a claim against you, and if you can't prove you were not negligent, you'll be liable.*

*To this end we will encourage you to keep the sites tidy at all times.*

Cofion / *Regards*,

Rhian Hughes-Jones

Clerc Cygnor Tref Nefyn *Town Council Clerk*

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651